Atodiad A

Ymateb Llywodraeth Cymru: Gweithgarwch Corfforol Ymhlith Plant a Phobl Ifanc – Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – Mawrth 2019

Rhif	Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
1.	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a phartneriaid eraill i ddatblygu fframwaith mesur cenedlaethol y cytunwyd arno ar gyfer lefelau gweithgarwch corfforol a ffitrwydd fel mater o flaenoriaeth, i safoni a gwella'r broses casglu data.	**Derbyn** Mae Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru wedi'i sefydlu rhwng Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn dilyn adolygiad Chwaraeon Cymru ym mis Hydref 2017. Mae hyn wedi cynnwys nifer o feysydd gweithredu allweddol, yn cynnwys gwella dulliau o fesur ac adrodd ar ddeilliannau poblogaeth mewn perthynas â gweithgarwch corfforol, sy'n cynnwys sefydlu Arsyllfa Gweithgarwch Corfforol. Ar hyn o bryd caiff data ar raddfa fawr, sydd wedi'i ddilysu, ei gasglu ynglŷn â gweithgarwch corfforol plant a'r glasoed, a hynny trwy Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Ymddygiad Iechyd Mewn Plant Oed Ysgol, Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru a'r Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion. Rhan o'r gwaith a gaiff ei wneud gan yr Arsyllfa Gweithgarwch Corfforol fydd cydgrynhoi'r holl ddata a'r holl dystiolaeth a geir am weithgarwch corfforol ar hyn o bryd ar un llwyfan. Bydd hyn yn sicrhau dull safonedig ar gyfer y modd y dehonglir y data a'r modd y llunnir adroddiadau ar gyfer amrywiaeth o ddefnyddwyr.
2.	Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Rhaglen Mesur Plant i fonitro gordewdra ymhlith plant y tu hwnt i 4-5 oed. Rydym yn credu y dylai argymhelliad Coleg Brenhinol y Paediatregwyr ac Iechyd Plant i fesur ar ôl geni, cyn ysgol ac yn ystod blaenlencyndod gael ei roi ar waith fel lleiafswm.	**Derbyn** Eisoes, caiff pob plentyn yng Nghymru ei bwyso adeg ei eni, ac eto pan fydd o oed cyn-ysgol (4 i 5) yn ystod y Flwyddyn Derbyn. Mae'r mesuriadau hyn a gymerir yn y flwyddyn Derbyn yn cyfarwyddo'r Rhaglen Mesur Plant. Mae rhaglen Plant Iach Cymru'n pennu adegau eraill yn ystod blynyddoedd cynnar plant pan fyddant yn cael eu mesur, yn cynnwys cyswllt pan fyddant oddeutu 15 mis, 27 mis a theirblwydd a hanner. Byddai rownd ychwanegol o fesur yn darparu tystiolaeth ar gyfer canlyniadau unrhyw weithgaredd a wneir rhwng y Flwyddyn Derbyn a Blwyddyn 4 (neu 6) i ymdrin â gordewdra a gorbwysau ymhlith plant oed ysgol, yn ogystal ag arwain at wella'r modd y caiff gwasanaethau atal neu drin eu cynllunio ar gyfer y glasoed yng Nghymru. Yn Lloegr, caiff pob plentyn ei fesur yn ystod blwyddyn 6 (10 i 11 oed). Yng Nghymru, yn y peilot gwreiddiol ar gyfer y Rhaglen Mesur Plant ac unwaith eto mewn peilot

		yn 2012, mesurwyd plant yn ystod Blwyddyn 4 (8 i 9 oed). Y sail resymegol dros fynd i'r afael â chynlluniau peilot Cymru yn ystod Blwyddyn 4, yn hytrach nag yn ddiweddarach mewn blaenlencyndod, yw er mwyn lleihau'r posibilrwydd y byddai glaslencyndod cynnar mewn plant yn cam-ystumio'r canlyniadau. Daeth ymgynghoriad Pwysau Iach: Cymru Iach i ben ar 12 Ebrill, a oedd yn cynnwys ystyried ail bwynt mesur. Gallai hyn helpu i ategu fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer strategaeth derfynol, a gyhoeddir ym mis Hydref 2019.
3.	Rydym yn argymell bod cydnabyddiaeth Llywodraeth Cymru bod angen canolbwyntio ar ddulliau teuluol yn cael ei defnyddio'n sail i gamau yn y strategaeth derfynol i atal a lleihau gordewdra, gan gynnwys targedau uchelgeisiol a threfniadau monitro effeithiol i sicrhau deilliannau pendant.	**Derbyn** Tynnodd dogfen ymgynghori Pwysau Iach: Cymru Iach sylw at yr angen i weithio gyda theuluoedd sydd mewn perygl mawr o ordewdra neu pan mae plant eisoes yn ordew. Caiff nifer o gynigion eu hystyried, yn cynnwys gwaith mwy penodol trwy gyfrwng rhaglen Dechrau'n Deg a dulliau seiliedig ar deuluoedd gan weithio'n agosach â lleoliadau cyn-ysgol ac ysgolion. Bydd y strategaeth derfynol ym mis Hydref 2019 yn cynnwys fframwaith monitro a gwerthuso, a fydd yn pennu cyfres o dargedau er mwyn sicrhau deilliannau pendant.
4.	Dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn ofynnol i Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gydweithio i ddatblygu rhaglen sy'n hybu manteision ffordd egnïol o fyw, megis cerdded a beicio, i'r teulu cyfan.	**Derbyn** Bydd Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru'n cyflymu ymdrechion ar y cyd i gynyddu'n sylweddol y lefelau gweithgarwch corfforol yng Nghymru, yn cynnwys cerdded a beicio. Mae Canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar weithgarwch corfforol yn cael eu hadolygu ar draws y DU a byddant yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi 2019. Bydd Llywodraeth Cymru'n ystyried amrywiaeth o gyfleoedd i ddatblygu dulliau cyfathrebu a rhaglenni i gefnogi iechyd y boblogaeth. Mae'r prif flaenoriaethau a'r prif gamau gweithredu ar gyfer bwrw ymlaen â'r ymrwymiad hwn yn cynnwys canolbwyntio ar bobl iach a lleoliadau iach, sy'n cyd-fynd â themâu allweddol Pwysau Iach: Cymru Iach. Caiff rhaglen waith ar y cyd ei hanelu at hyrwyddo manteision ffordd egnïol o fyw i bobl o bob oed. Ystyrir bod denu teuluoedd cyfan yn gatalydd pwysig ar gyfer sicrhau newid cynaliadwy a mwy hirdymor mewn ymddygiad ar draws y cenedlaethau.
5.	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau pellach yn y cwricwlwm newydd i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru yn cael ei alluogi i ddatblygu'r Sgiliau Echddygol Sylfaenol sy'n ofynnol ar oedran cynnar yn yr	**Derbyn** Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo iechyd a llesiant, a chynyddu mynediad a chyfleoedd i'n dysgwyr ieuengaf fod yn egnïol. Mae gan y Cyfnod Sylfaen saith o Feysydd Dysgu, ac

	ysgol, a sicrhau yr ymdrinnir yn llawn â bylchau yn y Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd mewn perthynas â'r sgiliau hyn. Byddem yn cefnogi buddsoddiad er mwyn i raglenni megis SKIP Cymru gael eu cyflwyno ledled y wlad i sicrhau bod pob ysgol yng Nghymru yn gallu cefnogi plant yn ddigonol i ddysgu'r sgiliau hyn.	un o'r rhain yw Datblygiad Corfforol. Mae cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn sicrhau bod datblygiad corfforol plant, eu brwdfrydedd a'u hegni i symud, yn cynnwys Sgiliau Echddygol Sylfaenol, yn cael eu hyrwyddo'n barhaus trwy ddarparu cyfleoedd iddynt ddefnyddio'u cyrff yn effeithiol trwy annog ymwybyddiaeth ofodol, cydbwysedd, rheolaeth a chydsymudiad a datblygu sgiliau echddygol a sgiliau llawdrin. Yn y Cyfnod Sylfaen, caiff plant eu hannog i fwynhau gweithgarwch corfforol o bob math, ac mae'r cwricwlwm wedi'i gynllunio er mwyn galluogi plant i symud o gwmpas tra y maent yn dysgu, dan do ac yn yr awyr agored, drwy gydol y diwrnod ysgol. Rhoddwyd cryn ystyriaeth yn y cwricwlwm newydd i ddatblygiad corfforol plant. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant wedi'i ddatblygu ar sail cynnydd mewn dysgu, a rhoddir ystyriaeth sylweddol i ddatblygiad corfforol. Mae arbenigwyr Llythrennedd Corfforol yn y maes hwn wedi cyfrannu'n helaeth at ganllawiau drafft y Maes Dysgu a Phrofiad. Bydd y canllawiau'n cynnig fframwaith y gall ymarferwyr ei ddefnyddio i ddewis y profiadau mwyaf addas i gefnogi dysg plant, drwy gydol y continwwm dysgu 3-16. Mae adnoddau presennol a ddatblygwyd gan Chwaraeon Cymru yn ystod cyfnod y rhaglen Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol a'r Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion – er enghraifft, Chwarae i Ddysgu ac Aml-Sgiliau a Champau'r Ddraig – yn darparu llwyfan y gellir ei ddefnyddio i ddatblygu Sgiliau Echddygol Sylfaenol, ond maent hefyd yn darparu model addysgegol mwy trosglwyddadwy a chynaliadwy ar gyfer Addysg Gorfforol yn y blynyddoedd cynnar ac ymlaen i Gyfnod Sylfaen 2. Rhywbeth i leoliadau ac ysgolion unigol yw penderfynu ynghylch yr adnoddau a ddefnyddir i ddatblygu rhaglenni gweithgareddau ar gyfer ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen ac unrhyw hyfforddiant cysylltiedig. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n archwilio'r potensial i ddatblygu astudiaeth achos i dynnu sylw at waith rhaglen SKIP Cymru, y gellir ei hyrwyddo ymhlith ymarferwyr y Cyfnod Sylfaen trwy gyfrwng Parth Rhwydwaith Rhagoriaeth y Cyfnod Sylfaen.
6.	Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rhaglen fuddsoddi mewn cyfleusterau gweithgarwch corfforol i ysgolion presennol nad ydynt yn rhan o fenter Ysgolion yr 21ain Ganrif.	**Gwrthod** Mater i awdurdodau lleol yw darparu cyfleusterau gweithgarwch corfforol mewn ysgolion. Efallai y gellir cynorthwyo ysgolion nad ydynt yn rhan o fenter Ysgolion yr 21ain Ganrif trwy Gronfa Gyfalaf Gyffredinol awdurdodau lleol i ymgymryd â gwaith i ddatblygu neu uwchraddio cyfleusterau o'r fath.
7.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr holl ysgolion uwchradd yn ymgynghori'n rheolaidd â disgyblion ynghylch y dewis a'r ystod o weithgareddau corfforol sydd ar gael iddynt a	**Derbyn** Eisoes, mae'r Arolwg Chwaraeon mewn Ysgolion, a roddwyd ar waith gan Chwaraeon Cymru gyda chymorth awdurdodau lleol, yn galluogi dysgwyr i ymgynghori ynghylch y cyfleoedd gweithgarwch

	sicrhau bod eu barn yn cael ei chymryd i ystyriaeth.	corfforol sydd ar gael. Cymerodd fwy na 120,000 o ddysgwyr a 1,000 o ysgolion (yn cynnwys ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd) ran yn yr Arolwg yn 2018, a chafodd y canlyniadau eu dosbarthu gan Chwaraeon Cymru mewn adroddiadau i awdurdodau lleol ac ysgolion. Bydd y cwricwlwm newydd, trwy gyfrwng Deilliannau Cyflawniad, yn galluogi ysgolion i ymgynghori gyda dysgwyr ynghylch y dewis a'r ystod o weithgareddau corfforol sydd ar gael iddynt. Ni fydd y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn pennu chwaraeon neu feysydd gweithgarwch corfforol; yr ysgol, ar y cyd â'r dysgwyr, a fydd yn penderfynu. Fodd bynnag, mae'r deilliannau dysgu'n nodi'r angen i blant a phobl ifanc brofi'r canlynol: • dysgu yn yr awyr agored i gefnogi llesiant ac iechyd corfforol; • ystod o gyfleoedd dyddiol, parhaus er mwyn bod yn gorfforol egnïol; • cyfleoedd i fod yn gorfforol egnïol mewn amrywiaeth o amgylcheddau (yn cynnwys dan do; yn yr awyr agored; ar arwynebau gwahanol; ar uchderau gwahanol; mewn dŵr ac o amgylch dŵr); • ystod o weithgareddau corfforol, trwy gyfrwng dulliau dysgu diddorol a llawn hwyl.
8.	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud y 120 o funudau o addysg gorfforol a argymhellir mewn ysgolion yn ofyniad statudol sylfaenol.	**Gwrthod** Bwriad y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer ategu'r cwricwlwm newydd yw ailddatgan egwyddor cwricwlwm newydd i Gymru a'i ddiffinio trwy gyfres eang o ddyletswyddau sy'n rhoi rhyddid i ymarferwyr ddefnyddio'u proffesiynoldeb a'u creadigrwydd i ddiwallu anghenion pob dysgwr. Mae adroddiad *Dyfodol Llwyddiannus* yn nodi'n glir y dylai penderfyniadau a chynlluniau ar gyfer y modd y dylid troi Meysydd Dysgu a Phrofiad yn weithgareddau beunyddiol ddigwydd yn greadigol ar lefel yr ysgol, ac na cheir amserlenni ar eu cyfer. Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd yw y dylai dysgwyr ddatblygu'n unigolion iach, hyderus. Un o nodweddion allweddol y diben hwn fydd cynorthwyo dysgwyr i roi ar waith yn eu bywydau bob dydd wybodaeth am effaith diet ac ymarfer corff ar iechyd y corff a'r meddwl. Y pedwar diben yw'r man cychwyn ar gyfer pob penderfyniad mewn perthynas â'r cwricwlwm. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, *Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol*, yn cynnig y bydd yna ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethol a Phenaethiaid i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys sydd wedi'i gynllunio i fodloni'r pedwar diben. Cynigir hefyd y bydd yna ddyletswydd ar Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol, cyrff llywodraethol a Phenaethiaid i gyflwyno cwricwlwm sy'n cynnwys y Meysydd Dysgu a Phrofiad a enwir, gydag Iechyd a Llesiant yn un o'r rhain. Mae'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant yn cynnwys cynnydd clir mewn gweithgarwch a

		llythrennedd corfforol ac mae'n tynnu sylw at y ffaith ei bod yn bwysig i ddysgwyr brofi ystod o gyfleoedd dyddiol, parhaus er mwyn bod yn gorfforol egnïol.
9.	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi mwy o flaenoriaeth i addysg gorfforol yn y cwricwlwm newydd ac yn gwneud y flaenoriaeth hon yn glir i Estyn, ac y dylai gweithgarwch corfforol gael mwy o flaenoriaeth yng nghyfundrefn arolygu Estyn ar gyfer ysgolion. Credwn y dylai'r fframwaith arolygu gynnwys ymlynu wrth y gofyniad i ddarparu 120 o funudau o weithgarwch corfforol yr wythnos, ond hefyd ansawdd y profiad addysg gorfforol.	**Derbyn** Ar hyn o bryd, mae Estyn yn ystyried hyd a lled y cwricwlwm dan Faes Archwilio 3 – profiadau addysgu a dysgu. Dull Estyn yw adrodd ar y materion hyn trwy eithriad – nid yw'n adrodd ar yr agweddau hyn yn benodol ym mhob adroddiad archwilio, nac ychwaith mewn perthynas â meysydd pwnc unigol. Mae Estyn hefyd yn ystyried gweithgarwch corfforol dan "2.1: Llesiant'. Yn ôl canllawiau'r archwiliad: *Dylai arolygwyr ystyried i ba raddau y mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol. Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn tyfu i fod yn unigolion iach a hyderus, a deall, er enghraifft, sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgarwch corfforol a lles emosiynol, yn cynnwys sut i'w cadw eu hunain yn ddiogel ar-lein. Dylent ystyried pa mor dda y mae dysgwyr yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon yn eu bywydau eu hunain yn yr ysgol ac yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i ymgymryd â gweithgarwch corfforol, er enghraifft yn ystod gwersi, amser egwyl ac amser cinio a thrwy glybiau a gweithgareddau eraill ar ôl ysgol.* Bydd Estyn yn parhau i adolygu'i ddull o archwilio'r cwricwlwm wrth i'r cwricwlwm newydd esblygu/datblygu. Mae adolygiadau archwilio thematig rheolaidd yn ffordd fuddiol o gasglu a gwerthuso gwybodaeth benodol am feysydd pwnc neu bynciau arbennig, er mwyn helpu i roi gwybod i'r Gweinidog Addysg ac i Lywodraeth Cymru yn fwy eang pa mor llwyddiannus y caiff polisïau a chanllawiau eu rhoi ar waith. Mae Estyn yn y broses o gwblhau adroddiad archwilio thematig ar ddulliau ysgolion cyfan o ymdrin ag iechyd a llesiant, a gyhoeddir ym mis Mehefin 2019. ***Nid ydym yn derbyn yr adran yn yr argymhelliad hwn sy'n ymwneud â darparu 120 o funudau'r wythnos o weithgarwch corfforol mewn ysgolion*** **(yn unol â'r ymateb i Argymhelliad 8).**
10.	Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau y rhoddir mwy o bwyslais ar weithgarwch corfforol yn y rhaglen Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA) ac fel rhan o ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl athrawon	**Derbyn** Ym mis Mawrth 2017 datblygodd a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru feini prawf newydd ar gyfer achredu rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Yn dilyn achredu annibynnol, bydd pedair partneriaeth AGA yn cyflwyno rhaglenni AGA yng Nghymru, o fis Medi 2019. Fel rhan o'r dasg o ddiwallu'r gofynion achredu, bydd y rhaglenni AGA newydd hyn yn sicrhau y bydd modd i athrawon newydd allu dysgu pedwar diben y cwricwlwm newydd a'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad, gan sicrhau y bydd mwy o ganolbwynt ar ddysgu gweithgarwch corfforol.

		Ymhellach, bydd y Partneriaethau AGA yn datblygu dulliau o gynorthwyo darpar athrawon i ddeall pwysigrwydd ymarfer seiliedig ar ymchwil, fel bod athrawon yn cael dysgu pa mor bwysig yw sicrhau eu bod yn gwybod y diweddaraf am ymchwil, yn cynnwys ymchwil yn ymwneud â llesiant ac iechyd corfforol dysgwyr, er mwyn cyfarwyddo'u hymarfer dysgu'n barhaus drwy gydol eu bywydau gwaith. Cafodd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol (NAPL) ei lansio'n ffurfiol yn ystod hydref 2018. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar y dysgwr ac yn ymgorffori pedwar diben y cwricwlwm newydd. Bwriad y dull yw ymateb i flaenoriaethau ysgolion, blaenoriaethau lleol a blaenoriaethau cenedlaethol, ac mae'n cwmpasu siwrnai ddysgu unigol yr holl ymarferwyr. Ymhellach, bydd y dull newydd yn canolbwyntio ar gynorthwyo athrawon i ddeall yn well a gwella llesiant ac iechyd meddwl disgyblion. Ers mis Hydref 2018, mae Arloeswyr Dysgu Proffesiynol wedi ymgysylltu â fframwaith y cwricwlwm sydd ar ddod trwy gyfrwng ymholiadau proffesiynol a gefnogir gan sefydliadau addysg uwch ledled Cymru. Mae'r ymholiadau hyn yn canolbwyntio ar addysgeg dysgu ac addysgu, dysgu proffesiynol a'r cymorth a'r arweiniad y bydd ysgolion eu hangen i roi'r cwricwlwm newydd ar waith. Ar hyn o bryd, mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cefnogi cylchoedd o ymholiadau proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant. Erbyn hyn, mae cylchoedd ymholiadau'n dechrau canolbwyntio ar oblygiadau sylweddol Meysydd Dysgu a Phrofiad o safbwynt addysgu a dysgu a'r modd y bydd angen datblygu sgiliau'r gweithlu ehangach. Bydd arloeswyr yn dyfnhau ffocws eu hymholiadau ar 'greu cwricwlwm' yn ystod tymor yr haf er mwyn cyd-fynd â lansio'r cwricwlwm drafft newydd. Bydd goblygiadau dysgu proffesiynol uniongyrchol yn cyfarwyddo'r cynnig dysgu proffesiynol rhanbarthol. Wrth i ymarferwyr ddod yn fwy cyfarwydd â'r cwricwlwm newydd, bydd angen amser i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r heriau dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â chyflawni mewn ysgolion, a bydd y dull cenedlaethol yn parhau i esblygu er mwyn diwallu'r anghenion hyn. Fe roddir y dull ar waith yn llwyr o fis Ebrill 2020.
11.	Rhaid i Lywodraeth Cymru wneud Ysgolion Bro yn realiti i bawb, a sicrhau cysondeb o ran mynediad at gyfleusterau ysgolion ar gyfer cyfleoedd i gyflawni gweithgarwch corfforol y tu hwnt i oriau ysgol ledled Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar y cynnydd o fewn deuddeng mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn.	**Derbyn** Mae Llywodraeth Cymru'n anelu at gael ysgolion bro a all ddarparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau yn ystod y diwrnod ysgol a thu hwnt, sy'n diwallu anghenion disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Byddwn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ar y cynnydd yn y maes hwn ymhen 12 mis.

12.	Dylai Llywodraeth Cymru rannu arfer da, lle mae ysgolion yn darparu mynediad ehangach at eu cyfleusterau, gan gynnwys datrysiadau ar gyfer goresgyn anawsterau sy'n ymwneud â threfniadau llywodraethu, staffio a chludiant.	**Derbyn** Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i bennu a rhannu arferion da. Bydd arweiniad a gwybodaeth yn cael eu cyflwyno ar wefan Llywodraeth Cymru, a bydd digwyddiadau ymgysylltu'n cael eu cynnal i hyrwyddo mynediad ehangach a chyfleusterau cydgysylltiedig. Yn ychwanegol at hyn, mae gwaith yn cael ei wneud i bennu'r rhwystrau hynny sy'n cyfyngu ar fynediad at gyfleusterau ysgolion a chwmpas y gwaith y bydd angen ei wneud i gael gwared â'r rhwystrau hyn.
13.	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Estyn i sicrhau ei fod yn cynnwys, fel rhan o'i gyfundrefn arolygu, asesiad o'r dewis o weithgareddau sydd ar gael mewn ysgolion, mynediad cyfartal ar gyfer bechgyn a merched ac a ymgynghorir â disgyblion ai peidio ynghylch y gweithgareddau a ddarperir.	**Derbyn** Yn ystod prosesau archwilio, edrychodd arolygwyr Estyn yn fras ar ba mor briodol oedd y cwricwlwm, gan gynnwys a yw ysgolion yn darparu cydraddoldeb i grwpiau o ddysgwyr, materion rhywedd, a pha mor dda y mae ysgolion yn cynnwys barn disgyblion wrth gynllunio a gwerthuso'r cwricwlwm. Mae Estyn yn adrodd ar y materion hyn trwy eithriad yn hytrach na mewn perthynas â meysydd pwnc unigol. Yn ddiweddar fe gymeradwywyd cylch gwaith blynyddol Estyn ar gyfer 2019-20, sy'n pennu adolygiadau thematig y mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r corff i fynd i'r afael â hwy yn ystod y cyfnod hwn. Bydd Llywodraeth Cymru'n trafod gydag Estyn pa un a oes cyfle i fynd i'r afael ag adolygiad thematig yn y maes hwn; ac os felly, yn nodi amserlen addas.
14.	Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chwaraeon Cymru i godi proffil chwaraeon merched. Gallai hyn gynnwys rhaglen lle mae "modelau rôl benywaidd o fyd y campau" yn ymweld ag ysgolion i siarad am eu profiadau ac annog mwy o ferched i gyfranogi mewn gweithgareddau chwaraeon.	**Derbyn** Bydd Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda Chwaraeon Cymru i gynorthwyo i ddatblygu ymhellach ymgyrchoedd fel *Sgwad Ni* a *#WatchHerGo*, er mwyn annog mwy o ferched i gymryd rhan mewn chwaraeon.
15.	Dylai Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru gynnwys amod mewn ceisiadau am gyllid ar gyfer rhaglenni gweithgarwch corfforol y bydd arian ond yn cael ei fuddsoddi mewn rhaglenni sy'n pwysleisio dull gwirioneddol gynhwysol o ddarparu gweithgarwch corfforol, a chynnwys asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n sicrhau bod ystyriaethau ar gyfer plant a phobl	**Derbyn mewn egwyddor** Rydym yn croesawu'r bwriad yn yr argymhelliad hwn. Mae Chwaraeon Cymru bob amser yn sicrhau bod ei gyllid yn canolbwyntio ar gynnwys dull gwirioneddol gynhwysol o ddarparu gweithgarwch corfforol. Fel rhan o'i strategaeth newydd, bydd Chwaraeon Cymru'n cyflwyno model adnoddau newydd. Bydd

	ifanc anabl yn cael eu hymgorffori o'r dechrau'n deg.	y model, a'i fwriad strategol, yn canolbwyntio ar sawl maes lle y rhoddir y person wrth galon y ddarpariaeth, gan sicrhau felly yr ymdrinnir â rhwystrau o ran cynwysoldeb. Rydym wedi nodi y dylai cefnogi'r grwpiau hyn – sef grwpiau nad ydynt yn egnïol yn aml, ond sy'n dymuno bod yn fwy egnïol – fod yn faes allweddol â blaenoriaeth. Wrth gwrs, wrth gynorthwyo'r garfan hon yn ein cymdeithas, neu yn wir gydag unrhyw fuddsoddiad, bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i faterion yn ymwneud â thaclo anghydraddoldeb, a byddem yn disgwyl i'r holl geisiadau am gyllid amlinellu sut y byddant yn darparu cyfleoedd, adnoddau a mynediad at gynigion chwaraeon. Bydd plant a phobl ifanc wrth galon y dull strategol newydd, gan sicrhau bod yr argymhelliad hwn yn cael ei adlewyrchu yn y modd y bydd Chwaraeon Cymru'n defnyddio'i adnoddau a hefyd yn y dull a roddir ar waith ganddo ar draws pob gweithgaredd. Eisoes, mae buddsoddiadau yn y Gronfa Iach ac Egnïol, a gyd-gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn dangos ymrwymiad clir i gynwysoldeb wrth ddarparu gweithgarwch corfforol. Bydd y rhain yn cael eu gwerthuso o safbwynt eu heffeithiolrwydd dros amser fel ffordd o sefydlu unrhyw gamau posibl a all ddilyn ar raddfa fwy.
16.	Dylai Llywodraeth Cymru archwilio sut y gellid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i helpu i fynd i'r afael â'r bwlch amddifadedd mewn lefelau gweithgarwch corfforol.	**Derbyn mewn egwyddor** Nid yw'n dderbyniol bod amgylchiadau cymdeithasol neu economaidd plant yn pennu eu llwyddiant. Rhywbeth sy'n sail i holl waith Llywodraeth Cymru yw'r gred na ddylai gallu plant i elwa ar addysg fod yn ddibynnol ar ble y maent yn byw, eu cefndir, neu beth yw incwm eu rhieni. Rydym yn buddsoddi symiau na welwyd eu tebyg o'r blaen – mwy na £190m eleni (2018-19) a'r flwyddyn nesaf (2019-20) – mewn cynorthwyo arweinwyr ein hysgolion i wella'r deilliannau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Mae torri'r cylch tlodi ac anfantais yn ymrwymiad hirdymor, ac rydym wedi bod yn glir ynglŷn ag ymrwymiad y Llywodraeth hon i'r Grant Datblygu Disgyblion am weddill tymor y Cynulliad. O un flwyddyn i'r llall, rydym wedi ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion. Erbyn hyn, mae'n cynorthwyo hyd yn oed fwy o'n dysgwyr mwyaf bregus. Yn ogystal â'r elfen sy'n ymwneud â phrydau ysgol am ddim, mae'r Grant Datblygu Disgyblion bellach yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, rhai mewn blynyddoedd cynnar, rhai mewn unedau cyfeirio disgyblion, a rhai sy'n derbyn darpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol. Mae'r elfen ddiweddaraf – Mynediad PDG – wedi'i chyflwyno i gynorthwyo rhieni gyda rhai o gostau'r diwrnod ysgol, yn cynnwys gweithgareddau chwaraeon. Mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio mewn rhai ysgolion i hyrwyddo gweithgareddau chwaraeon. Mae nifer o ysgolion yn cynnal clybiau ar ôl ysgol ac mae rhai'n darparu cludiant i'r pwll nofio lleol. Mewn blynyddoedd blaenorol yn Ysgol y Foryd, y Rhyl, mae'r dysgwyr wedi elwa ar ddefnyddio'r grant ar gyfer gweithgareddau corfforol. Roedd yr ysgol yn beilot ar gyfer darparu rhaglen Llythrennedd Corfforol y cwricwlwm newydd. Roedd y rhaglen yn cynnwys sgiliau beicio ac addysg awyr agored, gydag ymweliad preswyl ar gyfer Blwyddyn 2. Mae ymestyn gwaith yn

		ymwneud â Llythrennedd Corfforol yn y modd hwn wedi arwain at effaith gadarnhaol ar iechyd a ffordd o fyw'r disgyblion, ac mae wedi ennyn mwy o ddiddordeb mewn dysgu'n gyffredinol yn eu plith, sef rhywbeth sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.
17.	Dylai Llywodraeth Cymru adolygu ymdrechion Chwaraeon Cymru i leihau'r bwlch amddifadedd mewn lefelau gweithgarwch corfforol o ystyried y diffyg cynnydd	**Derbyn mewn egwyddor** Mae ymdrin â'r bwlch amddifadedd mewn gweithgarwch corfforol eisoes yn flaenoriaeth i Chwaraeon Cymru. Mae hwn wedi bod yn faes diddordeb arwyddocaol a bennwyd yn sgil ein tystiolaeth yn yr arolwg chwaraeon ysgolion, ac mae wrth galon y gwaith o ddatblygu meysydd ffocws ar gyfer strategaeth newydd Chwaraeon Cymru. Fodd bynnag, mae'n bwysig cydnabod hefyd nad Chwaraeon Cymru yw'r unig sefydliad sy'n gyfrifol am hyn. Ni all unrhyw sefydliad ar ei ben ei hun ymdrin â materion a welir trwy'r holl gymdeithas, fel tlodi. Felly, cafodd y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru ei lansio er mwyn nodi sut y gall gweithgarwch corfforol esgor ar ddeilliannau ar sail drawsbortffolio. Trwy gyfrwng Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru, mae Chwaraeon Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar ymdrin â gweithgarwch corfforol ar draws yr agenda chwaraeon, yr agenda iechyd a'r agenda amgylcheddol. Fel sefydliad, mae Chwaraeon Cymru hefyd yn canolbwyntio ar weithio gydag amrywiaeth o bartneriaid eraill, rhai traddodiadol ac anhraddodiadol, er mwyn ehangu'r cwmpas o ran sut y gellir cynorthwyo gweithgarwch corfforol. Caiff hyn ei nodweddu gan y dull a ddilynir trwy fodel rhanbarthol Chwaraeon Gogledd Cymru, lle y daw sefydliadau ynghyd o lywodraeth leol, tai, iechyd ac addysg er mwyn rhoi dull cyfannol a holistaidd ar waith o ddarparu gweithgarwch corfforol. Bydd y dull hwn yn newid sylweddol yn y ffordd y gwneir hyn yng Nghymru. Mae cyflwyno'r dull hwn yn rhanbarth Gogledd Cymru a thu hwnt, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru ac amrywiaeth o bartneriaid eraill, yn rhan allweddol o gyflawni'r argymhelliad hwn.
18.	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud trefniadau i sefydlu trefniadau cyllido mwy hirdymor i alluogi Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid i gynllunio'n fwy strategol.	**Derbyn** Rydym yn rhannu'r pryderon a grybwyllwyd gan y Pwyllgor. Er mwyn dechrau ymdrin â'r heriau hyn, rydym wedi ymwreiddio mwy o gydweithredu a chyd-ddefnyddio cyllidebau ar draws amrywiaeth o sectorau: iechyd, addysg a thrafnidiaeth, yn ogystal â chwaraeon. Enghraifft allweddol o hyn yw model newydd Chwaraeon Gogledd Cymru ar gyfer darparu chwaraeon cymunedol trwy sefydlu endidau rhanbarthol newydd. Ymhellach, mae'r Gronfa Iach ac Egnïol wedi dyrannu cyllideb o fwy na £5 miliwn yn ystod y tair blynedd nesaf, a chaiff 50% ohoni ei hariannu gan Iechyd Cyhoeddus a 50% gan Chwaraeon Cymru. Rydym yn bwriadu mynd ar drywydd y dull hwn o weithio gan fod mynd ati i gyfuno cyllidebau'n ffordd

		gynaliadwy o weithio'n effeithiol yn y cyfnod ariannol anodd sydd ohoni.
19.	Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'r defnydd o gytundebau Adran 106 i weld a ydynt yn cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol i sicrhau y darperir mannau gwyrdd diogel a hygyrch mewn datblygiadau tai newydd.	**Derbyn mewn egwyddor** Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn monitro'r ddarpariaeth o fannau agored newydd, a'r mannau agored a gollir, trwy gyfrwng y broses Dangosyddion Datblygu Cynaliadwy, sy'n casglu data gan y 25 awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru. Mae'r un broses fonitro'n tynnu sylw at y symiau a gesglir gan bob awdurdod cynllunio lleol trwy gyfrwng Adran 106 a'r Ardoll Seilwaith Cymunedol. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol, a bennir ym Mholisi Cynllunio Cymru, yn canolbwyntio ar y modd y gall y system gynllunio helpu i wella llesiant trigolion Cymru trwy gyfrwng polisïau cynllunio lleol a phenderfyniadau rheoli datblygu. Mae'r ddogfen hon yn pennu disgwyliadau clir y bydd mannau agored a mannau gwyrdd newydd a gwell yn cael eu darparu fel rhan o ddatblygiadau tai a datblygiadau eraill.
20.	Rydym yn pwyso ar Lywodraeth Cymru i ystyried ei safbwynt ynglŷn â defnyddio cyllid canlyniadol o ardoll y diwydiant diodydd ysgafn ac ymrwymo i'w ddefnyddio i gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a lleihau baich gordewdra yng Nghymru, fel y gwnaed mewn rhannau eraill o'r DU.	**Derbyn mewn egwyddor** Fel gyda chyllid canlyniadol o bob math, caiff y swm ei ychwanegu at gyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru a'i ddyrannu'n unol â'n blaenoriaethau. Mae hyrwyddo llesiant ac iechyd da i bawb yn un o flaenoriaethau allweddol ein strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, a dyna pam yr ydym yn parhau i gynorthwyo pobl i fyw mewn ffordd iachach, gan chwalu'r rhwystrau y mae afiechyd yn eu codi o safbwynt cyflogaeth a chyfleoedd, ac ymdrin â'r cylch cenedliadol o afiechyd ac anweithgarwch. Cafodd Cymru £56.757m dros y cyfnod pedair blynedd yr oedd gennym setliad refeniw (2016-17 hyd at 2019-20). Yn ein cyllideb ar gyfer 2019-20 rydym wedi dyrannu £13m ar gyfer gwella iechyd a gweithio iach er mwyn cefnogi amrywiaeth o gynlluniau sy'n pwysleisio egwyddorion gofal iechyd darbodus a chynorthwyo pobl i wneud dewisiadau cadarnhaol ynglŷn â'u ffordd o fyw. Yn ein cyllideb ar gyfer 2019-20, rydym hefyd yn buddsoddi mewn meysydd fel bwyd a maethiad mewn ysgolion (£3.4m), chwaraeon a gweithgarwch corfforol (£22.3m), a theithio llesol (£25m). Mae hyn yn arwain at gerdded a beicio ar gyfer mwy o siwrneiau beunyddiol, sef rhywbeth sy'n esgor ar fanteision iechyd i unigolion ac i gymdeithas. Bydd 'Pwysau Iach: Cymru Iach' yn ystyried amrywiaeth o gynigion i ymdrin â gordewdra. Bydd strategaeth derfynol yn cael ei lansio erbyn mis Hydref 2019. Byddwn yn ystyried yr anghenion cyllido ar gyfer cynorthwyo i gyflawni'r cynllun wrth ddyrannu cyllidebau yn y dyfodol.